Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: 8 Ionawr 2016

Amser: 10y.b. tan hanner dydd

Lleoliad: Pencadlys yr Heddlu, ystafell SCC002

Eitem 1 ar yr Agenda: Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Yn bresennol:-

NH (Cadeirydd)	Ymgynghorydd Annibynnol
PS	Ymgynghorydd Annibynnol
JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
NM	Ymgynghorydd Annibynnol
NC	Ymgynghorydd Annibynnol
BS	Ymgynghorydd Annibynnol
MB	Ymgynghorydd Annibynnol
PR	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
PL	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
DBG	Dirprwy Brif Gwnstabl, HDP
AD	Prif Uwch-arolygydd, Bröydd
AL	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg
MBR	Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg
AD	Ditectif Uwch-arolygydd, Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed, CID
JL	Rheolwr Ansawdd Gwasanaeth, SCHTh
HT	Cyfarwyddwr Ystadau, SCHTh
CHTh	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chyflwyniadau

SB	Ymgynghorydd Annibynnol
BH	Ymgynghorydd Annibynnol

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir.

Camau Gweithredu o'r Cofnodion Blaenorol

Cam Gweithre	Manylion	Perchennog	Statws
Eitem 4	**Cyflwyniad ar y Prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl** Rhoi ystyriaeth i hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd yn ffurfio rhan o hyfforddiant cychwynnol yr heddlu.	AL	Parhaus – Mae AL wedi trafod â'r adran hyfforddi mewn perthynas â hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd parhaus. Mae'r hyfforddiant ar iaith arwyddion Prydain eisoes yn digwydd yn Nyfed-Powys. Byddwn ni hefyd yn ystyried yr hyfforddiant fel un o'r Amcanion Cynllun Strategol wrth symud ymlaen â'r cynllun ar gyfer 2016-2020.
Eitem 4	**Cyflwyniad ar y Prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl** DT i hysbysu'r Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl mai dim ond cyfieithwyr cymwys sydd yn medru cynorthwyo â chyfathrebu â chleifion byddar ac nid yw ffrindiau'n addas o dan unrhyw amgylchiadau.	DT	**Parhaus –** Bydd DT yn cyflwyno hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Brysbennu Iechyd Meddwl.
Eitem 6	**Gwefan newydd SCHTh** Unrhyw un sydd eisiau cael ei gynnwys ar wefan SCHTh i hysbysu MBr.	MBR	**Parhaus**

Eitem 8(c)	Dylid e-bostio bywgraffiadau digwyddiadau argyfyngus at AL.	Pawb	**Parhaus** – Does dim bywgraffiadau digwyddiadau argyfyngus wedi'u derbyn hyd yn hyn

Cyflwynodd y CHTh ei hun i'r grŵp a diolchodd i bawb am fod yn rhan o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Rhoddwyd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau i'r CHTh.

Cafwyd trafodaeth ynghylch faniau brysbennu iechyd meddwl a sut y byddai swyddog yn cyfathrebu â pherson byddar yn ystod cyfnod o wewyr meddwl.

Cam Gweithredu:- NM a PS i gwrdd â'r Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl i'w cynghori ynghylch cyfathrebu â pherson byddar yn ystod cyfnod o wewyr meddwl. to

Cafwyd trafodaeth ynghylch ail ddylunio gorsafoedd heddlu a lleoliad gorsafoedd heddlu newydd. Mae'r trafodaeth yn parhau o dan eitem 5 o'r brif agenda.

3. Diwrnodau Eich Llais y Comisiynydd

Cyflwynodd JL, Rheolwr Ansawdd Gwasanaeth SCHTh, ei hun i'r grŵp a rhoddodd drosolwg o ddiwrnodau Eich Llais. Esboniwyd eu bod nhw'n rhoi cyfle i'r CHTh ymgysylltu â chymunedau lleol ledled yr ardal heddlu ac yn hwyluso trafodaethau ynghylch anghenion plismona lleol. Codwyd pryderon gan aelodau mewn perthynas ag amrywiaeth yr aelodau o'r cyhoedd dyr ymgysylltir â nhw a gofynnwyd i aelodau hysbysu AL am unrhyw grwpiau maen nhw'n meddwl y dylai'r CHTh fod yn ymgysylltu â nhw. Hefyd, mynegwyd pryderon ynghylch hygyrchedd canolfannau.

Cam Gweithredu: - Aelodau'r GYH i e-bostio AL ag awgrymiadau ynghylch grwpiau y dylai'r CHTh fod yn ymgysylltu â nhw I

4. Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus

Rhoddodd JL, Rheolwr Ansawdd Gwasanaeth SCHTh, drosolwg o'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus (SGC). Mynegodd MB bryderon mewn perthynas â gwasanaeth a dderbynnir gan y SGC ac awgrymodd y DBG y dylai cynorthwyo'r SGC i wella'r gwasanaeth a ddarperir.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chysylltiad y SGC ag aelodau'r GYH a sut y defnyddiwyd aelodau'r GYA yn flaenorol i gynghori mewn perthynas ag ymchwiliadau.

Cam Gweithredu:- DBG i sicrhau bod y cysylltiad rhwng yr ASP ac aelodau'r GYA yn parhau a bod y GYA yn cael ei ddefnyddio i roi cyngor lle bo'n berthnasol.

Cam Gweithredu:- MB i roi adborth i'r SGC mewn perthynas â'i phrofiad diweddar er mwyn i'r SGC ei ddefnyddio wrth adolygu'r gwasanaeth

5. Ail-ddylunio Gorsafoedd Heddlu

Darparodd HT, Cyfarwyddwr Ystadau SCHTh, drosolwg o ran ail-ddylunio gorsafoedd heddlu. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyfleusterau hygyrch a'r gorsafoedd heddlu ar eu newydd wedd. Rhoddodd aelodau gyngor ac arweiniad o ran yr ystyriaethau wrth ail-ddylunio.

Cam Gweithredu:- HT i roi adborth i'r GYA mewn perthynas â chyngor a ddarperir gan aelodau mewn perthynas â hygyrchedd gorsafoedd heddlu fel rhan o'r broses ail-ddylunio.

Cam Gweithredu:- MBR i anfon copi o'r canllawiau o ran pryd y mae person byddar yn mynychu un o'n derbynfeydd mewn gorsaf heddlu at HT er gwybodaeth.

6. Archwiliadau AHEM

Gofynnwyd i SC fynychu cyfarfod gan gadeirydd y GYA mewn perthynas â diogelu pobl sy'n agored i niwed a chafwyd trafodaeth. Dywedodd SC bod aelodau'n rhydd i gysylltu ag ef pe bai ganddynt unrhyw gwestiynau pellach ar y mater.

7. Amcanion Cydraddoldeb Strategol yr Heddlu

Bydd yr eitem yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

8. Aelodaeth o'r GYA a chyfarfod eleni

Cytunodd y grŵp y dylai'r GYA barhau i gwrdd ar sail chwarterol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ôl gwyliau'r Pasg.